



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI DYRCHAFIADAU
I FANDIAU DARLLENYDDION AC ATHRAWON

Adolygwyd	Dyddiad	Diben Cyhoeddi/Disgrifiad o'r Newid		Dyddiad Adolygu
1.	2022			N/A
2.				
3.				
Y Swyddog Polisi	Yr Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Pwy a'i Cymeradwyodd a'r Dyddiad	Asesu Effaith Cydraddoldeb a dyddiad	
Louise Shipton	Tracy Hibbert			

Diben y Polisi

Nod y Polisi Dyrchafiadau i Fandiau Darllenyddion ac Athrawon yw adlewyrchu ymrwymiad y Brifysgol i gynnal a gwella cymhelliant, morâl, a boddhad mewn swydd, ac i weithredu o fewn fframwaith sy'n gyson, yn dryloyw ac yn deg.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i hybu cyfle cyfartal yn ei holl weithgareddau ac mae'n anelu at greu amgylchedd i weithio, dysgu, ymchwilio ac addysgu sy'n rhydd o wahaniaethu a thriniaeth annheg. Bwriedir i'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â dyrchafiadau fod yn deg ac yn eglur, ac iddynt gyd-daro â Pholisïau Cyfle Cyfartal y Brifysgol.

Yn unol â hynny, caiff pob aelod staff ei drin yn deg ac yn gyfartal a chaiff penderfyniadau ynglŷn â chodiad cyflog, dyrchafiad a rheoli gyrfa eu seilio yn llwyr ar allu'r unigolyn a'i berfformiad effeithiol. Ystyrir statws cyflogaeth neu gcontract yr ymgeisydd (e.e. rhan-amser, rhannu swydd ac yn y blaen) ac amgylchiadau personol (e.e. mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, absenoldeb rhiant ac yn y blaen) a allai fod wedi effeithio ar yrfa'r ymgeisydd wrth asesu maint y gweithgarwch ond nid yr ansawdd.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i fonitro ceisiadau, tueddiadau sy'n ymwneud â dyrchafiadau, ac ystadegau er mwyn sicrhau bod y meini prawf sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir yn rhai y gellir eu cyfiawnhau'n wrthrychol ac yn gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfle cyfartal a gwahaniaethu.

Cwmpas

Mae'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i staff sy'n gwneud cais am swyddi ar Fandiau Darllenyddion (Gradd 9) a Bandiau Athrawol 1-3. Manylir ar y meini prawf meincnodi ar gyfer dyrchafiadau mewn dogfen atodol. Nid yw'r meini prawf meincnodi'n hollgynhwysfawr nac yn haearnidd ond maent yn rhoi enghreifftiau o natur yr hyn sy'n ddisgwyliedig a ddefnyddir i asesu ceisiadau. Bydd rhai dangosyddion yn fwy perthnasol i rai disgyblaethau ac ystyrir hynny wrth asesu'r ceisiadau. Ni ddisgwylir i ymgeiswyr ateb yr holl feini prawf ym mhob maes.

Cyfrifoldeb

Cyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, sy'n adrodd i'r Grŵp Tasg Adnoddau Dynol a'r Pwyllgor Gweithredu, yw gweithredu, monitro ac adolygu'r polisi hwn ledled y Brifysgol.

Deoniaid Colegau, Penaethiaid Ysgolion a Phenaethiaid Adrannau sy'n gyfrifol am weithredu'r Polisi o fewn y Colegau a'r Gwasanaethau Proffesiynol.

Egwyddorion Craidd

- Os gall aelod o staff ddangos, trwy gais am ddyrchafiad, ei fod yn bodloni'r meini prawf meincnodi perthnasol ar gyfer Darllenydd neu Athro, uwchraddir ei swydd i'r radd uwch honno. Ni fydd y ceisiadau'n gystadleuol a chânt eu hystyried yn ôl eu haeddiant.
- Y disgwyliad arferol yw y bydd unigolion a benodir yn Athrawon am y tro cyntaf fel arfer yn cael eu dyrchafu/yn dechrau ar Fand Athrawol 1. Mae Band Athrawol 1 yn ddigon eang i ganiatáu dilyniant o fewn y band wrth i Athrawon newydd ddatblygu eu gyrfa a'u statws.
- Mae Band Athrawol 2 i Athrawon sydd ag enw da rhyngwladol amlwg yn eu maes, neu sydd â phresenoldeb allanol sy'n eu gosod ar lefel sylweddol uwch na'r hyn a ddisgwylir drwy benodiadau cadeiriol i Fand 1.
- Mae Band Athrawol 3 fel arfer i Athrawon sydd â thystiolaeth eu bod yn ffigurau academaidd o bwys, yn enwog yn rhyngwladol ac yr ystyrir eu bod yn dod â bri sylweddol i'r Brifysgol drwy eu record gyson o lwyddiant academaidd ar y lefel uchaf. Caiff yr unigolion eithriadol hyn fel arfer eu cydnabod yn eang felly gan eu cyfoedion. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol felly y mae'n debygol y penodir rhywun yn uniongyrchol i Fand 3 a dim ond gyda chymeradwyaeth ymlaen llaw gan Bwyllgor yr Athrawon a'r Darllenyddion.
- Trwy'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad (ADP) dylid cynnal trafodaethau ystyrion gyda'r holl staff (llawn amser, rhan-amser, parhaol a chyfnod penodol) ar ddatblygiad gyrfa a'r safonau angenrheidiol i gael dyrchafiad, i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at y safonau hyn, a'r cymorth a ddarperir.

Y DREFN AR GYFER DYRCHAFU I FANDIAU DARLLENYDDION AC ATHRAWOL 1 - 3

Mae'n bwysig trafod dilyniant gyrfa'n flynyddol yn rhan o'r broses ADP. Mae'r ADP yn rhoi cyfle i unigolyn drafod ei berfformiad yn ystyrllon gyda'i adolygydd a gweld pa gyfleoedd sydd yna am ddyrchafiad. Trwy'r broses hon dylai fod yn bosibl cael adborth defnyddiol (yn unol â'r meini prawf meincnodi dyrchafiad) a dylai hynny sicrhau bod y cais mor gryf â phosibl. Disgwylir felly fel arfer y bydd unigolion wedi cael ADP cyn gwneud cais.

Rhaid i unigolion fod wedi bod yn y swydd am o leiaf 12 mis cyn iddynt wneud cais.

Ni ddisgwylir i ymgeiswyr nodi eu llwybr ar gyfer dyrchafiad ond disgwylir iddynt fod â thystiolaeth o gyfraniad parhaus ym mhob maes gweithgaredd a bennir gan eu llwybr contract cyflogaeth ac yn unol â'r meini prawf meincnodi perthnasol. Felly bydd angen dangos tystiolaeth o ragoriaeth, yn erbyn meini prawf meincnodi, fel a ganlyn:

Llwybr Contract:	
Addysgu ac Ysgolheictod	Addysgu ac Ymchwil
Addysgu a Dysgu	Ymchwil
Ymchwil (agweddau perthnasol yn unig)	Addysgu a Dysgu (agweddau perthnasol yn unig)
Chyfraniad Arweinyddiaeth & Ehangach	Chyfraniad Arweinyddiaeth & Ehangach

Dylai ymgeiswyr ddangos eu bod wedi cyfrannu ar draws rychwant amcanion strategol y Brifysgol, a hynny ar ben y rhagoriaeth y gallant ei nodi yn y maes o'u dewis. Dylent hefyd fod yn ymwybodol bod swyddi athrawon a darllenyddion yn swyddi arweiniol, felly dylai ceisiadau ddangos tystiolaeth o hwyluso, gwella ac ysbrydoli gwaith cydweithwyr - yn ogystal â chyrraedd rhagoriaeth unigol.

1. AMSERLEN

Ystyrir dyrchafiadau yn flynyddol gyda cheisiadau dyrchafiad llwyddiannus yn dod i rym o 1 Ionawr 2023.

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon bod achos *prima facie* ar gyfer dyrchafiad wedi'i sefydlu bydd y ceisiadau'n dilyn proses dau gam fel nodwyd isod.

Fel rheol, dylid gwneud cais trwy Bennaeth Ysgol a Deon y Coleg. **Fel arfer rhaid i geisiadau gyrraedd y Pennaeth** Ysgol & Deon y Coleg i'w hystyried o leiaf 2 wythnos o flaen llaw y dyddiad cau cyhoeddedig ar gyfer Ceisiadau gan y Brifysgol. Bydd Pennaeth yr Ysgol/Deon y Coleg yn gwirio cywirdeb adrannau ffeithiol y CV.

Gyda'r dyddiad cau cyhoeddedig yw 13 Ionawr 2023 yn y rownd bresennol, **RHAID i ymgeiswyr sicrhau bod eu ceisiadau'n cael eu cyflwyno i'w Pennaeth Ysgol a Deon y Coleg erbyn 22 Rhagfyr 2022 fan bellaf** (cyn cyfnod cau'r Nadolig)

Bydd Pennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg yn darparu eu gwerthusiad ysgrifenedig manwl o'r cais, yn erbyn y meini prawf meincnod, i Adnoddau Dynol erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig.

2. Y DREFN YMGEISIO A MEINI PRAWF CYMWYSO

Gwneir cais trwy gwblhau'r ffurflen Bandiau Darllenyddion ac Athrawon - Curriculum Vitae Academaidd. Cewch gynnwys deunydd o'ch ADP yn eich cais.

Mae'r Brifysgol yn deall y gall amgylchiadau unigol effeithio ar broffil gyrfa ymgeisydd. Felly, mae'n bwysig ystyried materion o'r fath trwy wneud addasiadau priodol o ran cydraddoldeb a addasiadau angenrheidiol eraill wrth ystyried cais. Gall amgylchiadau unigol gynnwys, ymhlith pethau eraill:

- Gweithio'n rhan-amser (gan gynnwys gweithio yn y semester neu rannu swydd)
- Absenoldeb Beichiogrwydd a Mamolaeth
- Absenoldeb Tadolaeth
- Absenoldeb Rhiant a Rennir
- Absenoldeb Mabwysiadu
- Anabledd
- Dyletswyddau Gofalu
- Salwch neu anaf hirdymor
- Gweithgareddau gweinyddol ble mae galw mawr amdanynt ar lefel Prifysgol/Coleg/Ysgol

Anogir ymgeiswyr i ddatgelu amgylchiadau o'r fath yn y cais. Caiff ansawdd ac effaith perfformiad yr ymgeisydd eu hasesu yn unol â'r meini prawf meincnodi. Caiff amgylchiadau unigol eu hystyried er mwyn sicrhau bod barn gytbwys ynghylch cyfraniad cyffredinol yr ymgeisydd i'w swydd. Ni ddylid ystyried materion unigol yn ffordd o ostwng y bar wrth asesu rhagoriaeth ond yn hytrach yn ffordd o ystyried disgwyliadau gwahanol o ran maint allbwn/amlder gweithgareddau.

Bydd Pennaeth yr Ysgol a Deon y Coleg yn darparu gwerthusiad ysgrifenedig manwl o'r cais, yn erbyn y meini prawf meincnod, gan amlinellu cryfderau'r cais a'r meysydd lle mae diffyg tystiolaeth yn y cais, trwy lenwi'r templed ffurflen adborth. Gellir cyflwyno datganiad ar y cyd. **However, if the application is for promotion to one of the Professorial Bands and the Head of School does not hold a Chair, the Dean of College will arrange for a suitable Professor from within the School or College to prepare an assessment of the case. If the applicant is the Head of School, a letter from the Dean of College will be required. Another senior academic from within the University may also be approached at the discretion of the Vice-Chancellor.**

Cam 1

Caiff y ceisiadau eu hanfon ymlaen gan yr Adnoddau Dynol i'r Pwyllgor Athrawon a Darllenwyr i'w hystyried.

Bydd Deon y Coleg yn cyflwyno'r ceisiadau sydd o dan ystyriaeth o'u maes i'r Pwyllgor.

Os yw'r Pwyllgor yn fodlon y ceir achos *prima facie*, ceisir asesuadau annibynnol ar y cais, oddi wrth o leiaf 4 canolwr. (dylai tri o'r rhain fod yn unigolion allanol a fydd, fel rheol, yn athrawon yn yr un pwnc/ maes neu mewn pwnc/ maes perthnasol). Dylai'r rhain fod yn ysgolheigion a berchir ar lefel gadeiriol lawn (neu gyfatebol), heb hanes o gydweithredu'n agos na chyhoeddi â'r ymgeisydd. Fel rheol, dylid enwebu o leiaf un aseswr rhyngwladol.

Y Pwyllgor yn y pen draw fydd yn pennu enwau'r aseswyr allanol y gofynnir am eu sylwadau.

Where the Committee consider the application falls short of the expected benchmark criteria, and thus no *prima facie* case has been established, consideration of the application will conclude at Stage 1.

Cam 2

Ar ôl derbyn tystlythyrau a ddefnyddiwyd o ganlyniad i Gam 1, bydd y panel yn ailymgynnull i ystyried y cais ymhellach.

3. PWYLLGOR ATHRAWON A DARLLENWYR

Dylai'r cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y Pwyllgor fod mor agos at 50% gwrywaidd a 50% benywaidd ag sy'n rhesymol bosibl.

- Is-Ganghellor (neu eu cynrychiolydd enwebedig) - Cadeirydd
- Dirprwy i'r Is-ganghellor
- Dirprwy Is-Gangellorion
- Deoniaid y Colegau
- Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Gwasanaethir y panel gan Adnoddau Dynol

4. HYSBYSU'R CANLYNIAD/ADBORTH

Bydd yr adran Adnoddau Dynol yn ysgrifennu i hysbysu ymgeiswyr o ganlyniad eu hachos, gan nodi y bydd Deon y Coleg, ynghyd â Phennaeth Ysgol y maes perthnasol, yn cyfarfod â'r ymgeisydd (llwyddiannus ac aflwyddiannus) i roi adborth llawn.

5. DIOGELU DATA

Caiff papurau cefndirol ac adroddiadau'n ymwneud â cheisiadau am ddyrchafiad eu cadw'n ganolog yn yr adran Adnoddau Dynol, ac yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

**CAIS AM DDYRCHAFIAD -
SIART LIF BANDIAU DARLLENYDDION AC ATHRAWON
PROCESS FLOWCHART**

